

## Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar graffu blynyddol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru: 2023.

Sefydlwyd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW) yn 2018 fel corff cynghori annibynnol, anstatudol i Weinidogion Cymru.

Ei brif ddiben yw dadansoddi, cynghori a gwneud argymhellion ar anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol strategol hirdymor Cymru dros gyfnod o 5–80 mlynedd.

Cafodd y Comisiwn presennol ei ymgynnull yn 2022 pan benodwyd Dirprwy Gadeirydd a 6 Comisiynydd newydd i wasanaethu gyda'r Cadeirydd, Dr David Clubb, a benodwyd ddiwedd 2021.

Ynghyd â sefydlu Comisiwn newydd cafwyd llythyr cylch gwaith newydd, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn nodi rhaglen waith gan gynnwys y gofyniad i NICW edrych ar y ffordd y mae ynni adnewyddadwy yn cael ei ddarparu yng Nghymru. Yn ogystal, ymrwymodd y Cytundeb Cydweithredu i NICW edrych ar ffyrdd y gellid lleihau llifogydd mewn cartrefi, busnesau a chymunedau erbyn 2050. Caiff y adroddiad hwn ei baratoi ar hyn o bryd ac edrychwn ymlaen at glywed barn y Comisiwn ar hyn yn ddiweddarach eleni.

Mae craffu annibynnol ar gyrff fel Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn rhan bwysig o ddemocratiaeth dryloyw. Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am eu hadroddiad ar y sesiwn a gynhaliwyd ganddynt gyda Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd NICW ym mis Ionawr 2024.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad, sydd wedi eu hanelu at Lywodraeth Cymru, isod.

## Argymhelliad 1.

*Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i gynnal adolygiad cynhwysfawr o statws, rôl ac amcanion y Comisiwn cyn diwedd 2024. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r gwahanol sectorau seilwaith a rhanddeiliaid perthnasol eraill i lywio'r adolygiad.*

### Ymateb: Derbyn

Mae fy swyddogion wedi dechrau cwmpasu adolygiad o NICW gyda chydweithwyr o Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar maent wedi cynnal adolygiadau tebyg ar draws y sefydliad a chyrrff cyhoeddus allanol. Cynlluniau cychwynnol yw i'r adolygiad gynnwys asesiad o gadernid trefniadau llywodraethu, gwerthuso myfyrdodau mewnol a wneir gan Gomisiynwyr, ymgysylltu allanol â rhanddeiliaid gan gynnwys amrywiol sectorau seilwaith ac ymarfer meincnodi ar draws sefydliadau tebyg. Bydd yr adolygiad yn edrych ar gylch gwaith, ffurf a swyddogaeth NICW a bydd yn gymesur o ran maint i faint y Comisiwn, gan geisio ystod barn a safbwyntiau amrywiol cyn cynnig sylwadau.

### Goblygiadau ariannol:

Dim - Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei hun i gynnal yr adolygiad.

## Argymhelliad 2.

*Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen y mae'n gweithio tuag ati er mwyn cwblhau'r adolygiad. Os yw'r adolygiad yn annhebygol o gael ei gwblhau cyn diwedd 2024, dylai esbonio'r rheswm pam.*

### Ymateb: Derbyn

Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Bydd asesiadau desg cychwynnol o ddogfennaeth a meincnodi sefydliadau yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf. Bydd yr amser hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i baratoi ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid a fydd yn cael ei gynnal wedi'r haf. Bydd y Comisiwn ei hun yn cymryd rhan yn yr adolygiad a bydd yn cael ei friffio'n rheolaidd ynghylch cynnydd. Ar hyn o bryd mae y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn paratoi'r Cylch Gorchwyl drafft a fydd yn nodi'r amserlenni a'r broses adolygu yn fanylach.

### Goblygiadau ariannol:

Dim - Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei hun i gynnal yr adolygiad.

## Argymhelliad 3.

*Fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru o rôl ac amcanion statws y Comisiwn, dylai ystyried yr achos dros ymestyn y tymor penodi ar gyfer Comisiynwyr fel ei fod yn cydfynd yn well â phenodiadau cyhoeddus eraill.*

**Ymateb:** Derbyn

Rhagwelir y bydd telerau penodi Comisiynwyr NICW yn cael eu cynnal fel rhan o'r adolygiad. Bydd hyn yn edrych a yw'r cyfnod presennol yn y swydd yn caniatáu digon o amser i Gomisiwn weithio'n gydlynol gyda'i gilydd i ddeall materion seilwaith yn gynhwysfawr a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar draws y sectorau niferus y mae'n eu cwmpasu. Bydd meincnodi cyrff cyhoeddus eraill hefyd yn digwydd yn hyn o beth. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn paratoi eu Cylch Gorchwyl drafft a fydd yn nodi'r amserlenni a'r broses adolygu yn fanylach.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

#### **Argymhelliad 4.**

*Dylai'r Comisiwn ymrwymo i sicrhau bod y gofyniad i Gomisiynwyr beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau neu benderfyniadau pan allai gwrthdaro buddiannau, neu wrthdaro buddiannau canfyddedig, godi yn cael ei fodloni'n gyson. Dylai hefyd ymrwymo i sicrhau fod trefniadau priodol ar waith i fonitro cydymffurfio â'r gofyniad.*

**Ymateb: Amherthnasol**

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer NICW ac nid Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

#### **Argymhelliad 5.**

*Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:*

- *ymateb i adroddiad y Comisiwn, Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050, fel blaenoriaeth, a*
- *esbonio pam na chyflawnodd ei ymrwymiad i ddarparu ymateb erbyn diwedd mis Ionawr 2024.*

**Ymateb:**

Mae'r adroddiad *Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050* yn gwneud 11 o argymhellion eang ar gefnogi system ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Ystyriwyd bod angen ystyried adroddiad NICW law yn llaw â chwblhau adroddiad Archwilio Dwfn Ynni Adnewyddadwy o ystyried y gorgyffwrdd â'r argymhellion.

Mae'r trydydd diweddariad a'r olaf ar yr adroddiad Archwilio Dwfn Ynni Adnewyddadwy bellach wedi'i gyhoeddi. Mae gwaith ar ymateb i'r argymhellion sy'n weddill yn adroddiad NICW wedi'i baratoi fel mater o flaenoriaeth a bydd yn cael ei ystyried gan Weinidogion Cymru cyn ymateb i'r Comisiwn yn uniongyrchol.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg yn ysgrifennu at y Comisiwn i'w gwahodd i gyfarfod i drafod ymateb Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 6.**

*Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei hamserlen ar gyfer ymateb i adroddiadau'r Comisiwn. Dylai ystyried mabwysiadu amser ymateb rhwng 6 wythnos a 3 mis, fel ei fod yn cyd-fynd yn well â'r amser ymateb ar gyfer adroddiadau gan bwyllgorau'r Senedd ac Aseswr Diogelu'r Amgylchedd Annibynnol Cymru.*

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Bydd pob agwedd ar gylch gwaith a chylch gorchwyl NICW yn cael eu hasesu fel rhan o adolygiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol sydd ar ddod. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio y gallai natur argymhellion NICW, sy'n cael effaith hirdymor, olygu bod angen trafodaeth helaeth, o fewn Llywodraeth Cymru a chyda AGIC, ar y goblygiadau y gallent eu cael ar drefniadau cyflawni, deddfwriaeth a pholisi cyfredol. Er ei bod yn anffodus, o ran yr adroddiad ynni adnewyddadwy, nad ydym wedi gallu cyflawni ein hymrwymiaadau, mae hyn yn dangos yr amser sydd ei angen i asesu argymhellion y Comisiwn.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 7.**

*Dylai'r Comisiwn ystyried a ellid ymgorffori draenio a storio dŵr, a sut y gellid gwneud hynny, yng ngham ymchwil ei waith ar wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg ddirfodol. Dylai gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y canlyniad wrth ymateb i'n hadroddiad.*

**Ymateb: Amherthnasol**

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer NICW ac nid Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 8.**

*Dylai'r Comisiwn:*

*\* egluro a yw'n trafod â Phwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (UK CCC) ar ei waith, a sut, yn enwedig ei brosiect blwyddyn tri ar wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg dirfodol, a*

*\* ceisio cynrychiolaeth Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ar ei Fwrdd Cyngori ar wrthsefyll y newid hinsawdd a risg dirfodol.*

**Ymateb: Amherthnasol**

Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer NICW ac nid Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 9.**

*Fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o statws, cylch gwaith ac amcanion y Comisiwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes budd i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal asesiad seilwaith cenedlaethol (tebyg i'r asesiadau a gynhaliwyd gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU)*

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Bydd pob agwedd ar gylch gwaith a chylch gorchwyl NICW yn cael eu hasesu fel rhan o'r adolygiad sydd ar ddod, mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad seilwaith cenedlaethol. Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU yn gyfrifol am gynnal asesiad o'r fath, unwaith ym mhob senedd. Mae'r asesiad hwn ledled y DU yn cynnwys meysydd cyfrifoldeb datganoledig a neilltuedig. Byddai angen cynnal asesiad i weld a fyddai'n briodol i NICW ymgymryd â gwaith tebyg yng Nghymru ac a fyddai hyn yn rhoi gwerth am arian. Gellid ystyried bod dull presennol NICW o asesu sectorau unigol ar sail angen-ei-wneud, yn ffordd fwy effeithlon o weithredu, yn enwedig o ystyried lefelau adnoddau cyfredol. Rwy'n parhau i fod â meddwl agored ar y pwynt hwn a byddaf yn sicrhau bod yr adolygiad yn ymdrin â'r mater hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr hyn sy'n cyfateb i NICW yn Seland Newydd yn dangos y gallai asesiad cynhwysfawr o'r seilwaith gostio oddeutu £2.5 miliwn, gan feincnodi poblogaeth Seland Newydd yn erbyn Cymru.

**Julie James AS**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**